

## BIDWELL, MORUS, pregethwr Piwritanaidd, cyfnod y Weriniaeth

**Enw:** Morus Bidwell

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** pregethwr Piwritanaidd, cyfnod y Weriniaeth

**Maes gweithgaredd:** Crefydd

**Awdur:** Thomas Richards

Enwyd ef yn un o'r 25 profwyr o dan Ddeddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru (1649-52); ersyf profion cyfoes iddo dderbyn £138 am y gwaith hwn yn 1650 (a rhan o 1649), £75 am 1651, a dau daliad o £50 yn 1652; y mae prawf hefyd iddo ddangos cryn ddiddordeb yn yr ysgol Biwritanaidd a sefydlwyd yn Abertawe. Gan nad adnewyddwyd y Ddeddf honno yn 1653, penodwyd ef yn weinidog sefydlog ar gynulleifa Eglwys Fair yn yr un dref. Yno yn 1658 y digwyddodd yr ymgiprys hyll rhngddo ef a **John ap John** y Crynwr; pan ofynnodd y Crynwr yn gecrus oni chydnbaydai Bidwell ei fod ef (ap John) yn wir bregethwr y Gair, cafodd fel ateb ergyd chwym yn ei wyneb. Bu Bidwell farw cyn 1660, ac yr oedd y fath wrthwnebiad gan frenhinwr o'r enw Richard Seys i'w gorff orwedd yng nghanell yr Eglwys Fair fel y meiddiodd geisio rhwystro hunny gyda'r cleddyf, ond, medd yr hanes, trowyd ef ymaith gan y 'penboethiaid' a'i daflu i garchar.

### Awdur

**Thomas Richards**, (1878 - 1962)

### Ffynonellau

Llawysgrifau yn llyfrgell Bodley o eiddo John Walker, c. 13 (17, 20, 22, 22b)

Lambeth MS 972 (366)

Llawysgrifau yn llyfrgell Bodley o eiddo John Walker, c. 4 (72)

Besse, A collection of the sufferings of the people called Quakers for the testimony of a good conscience from the time of their being first distinguished by that name in the year 1650 to the time of the act commonly called the Act of toleration granted to Protestant dissenters in the first year of the reign of King William the Third and Queen Mary in the year 1689 (1753), i, 735

Publications of the Friends' Historical Society, suppt. 6 (12)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733959](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Richards, T., (1953). BIDWELL, MORUS, pregethwr Piwritanaidd, cyfnod y Weriniaeth. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BIDW-MOR-1650>

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nosbarwr  
Llyfrgell Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government